------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(279)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5799**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

**Alun Ffred Jones (Arfon)**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu cyhyd â bod fformiwla Barnett yn parhau y dylai datblygiadau sydd o fudd i Loegr yn unig, fel HS2, arwain at gyllid canlyniadol Barnett llawn i Gymru; a

2. Yn credu ymhellach, pan fo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn anghydfod ynghylch a ddylai gwariant arwain at gyllid canlyniadol Barnett i Gymru bod angen corff annibynnol i farnu ar hyn.

**Cefnogir gan:**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5812 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynigion y Ceidwadwyr Cymreig i roi hwb i'r cymorth a roddir i brynwyr am y tro cyntaf; a

2. Yn cydnabod yr angen i helpu prynwyr am y tro cyntaf ar yr ysgol dai drwy weithio gyda'r farchnad gyfan i ddatblygu amrywiaeth o fentrau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r anawsterau sy'n wynebu prynwyr tro cyntaf o dan yr amgylchiadau economaidd cyfredol.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fodel tai rhentu i brynu newydd ac arloesol i alluogi tenantiaid i adeiladu cyfran ym mherchnogaeth eu cartrefi drwy eu rhent.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod rôl tai cymdeithasol o ran darparu tai fforddiadwy cost isel, ac nad yw'n briodol i weithredu polisïau prynu cartref a fyddai'n lleihau'r stoc tai cymdeithasol.

**5 Cyfnod pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5811 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Y rhwystrau i gyflogaeth sy'n wynebu pobl sydd â nam ar y clyw yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Gorffennaf 2015 i'w hateb ar 8 Gorffennaf 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu effeithiolrwydd mesurau i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)0352(CTP)

2. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar bobl sy’n byw yn Nhorfaen? OAQ(4)0367(CTP)

3. **Elin Jones (Ceredigion):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu mudiadau trydydd sector sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal? OAQ(4)0357(CTP)**W**

4. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol nad ydynt wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dal i dalu sylw iddo? OAQ(4)0353(CTP)

5. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0366(CTP)

6. **Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu tai cymdeithasol addasadwy yng Nghymru? OAQ(4)0358(CTP)

7. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn brwydro yn erbyn tlodi yng Nghymru? OAQ(4)0355(CTP)

8. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi mewn perthynas â chanolbarth Cymru? OAQ(4)0360(CTP)

9. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cymharol o dlodi yn y wardiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Nwyrain Casnewydd? OAQ(4)0363(CTP)

10. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gofal plant yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0359(CTP)

**11. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Dechrau'n Deg? OAQ(4)0350(CTP)

**12. Janet Howarth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0361(CTP)

**13. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella ymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr? OAQ(4)0351(CTP)

**14. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd yn y defnydd o undebau credyd yn ystod y Cynulliad presennol? OAQ(4)0354(CTP)**W**

**15. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen Esgyn? OAQ(4)0365(CTP)

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu manteisio ar drydaneiddio'r brif linell Great Western i Abertawe? OAQ(4)0583(EST)

**2. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am unrhyw drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda Tata Steel? OAQ(4)0582(EST)

**3. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect ailddatblygu Pont Briwet? OAQ(4)0592(EST)

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i'r effaith y bydd adroddiad terfynol y Comisiwn Maes Awyr yn ei chael ar Gymru? OAQ(4)0586(EST)

**5. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Grid Cenedlaethol am effaith codi peilonau newydd ar dwristiaeth? OAQ(4)0597(EST)**W**

**6. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion? OAQ(4)0589(EST)**W**

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0595(EST)

**8. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth ar gyfer busnesau bach ledled Cymru? OAQ(4)0596(EST)

**9. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd mewn perthynas â'r anghydfod diwydiannol cyfredol rhwng rheolwyr Amgueddfa Cymru ac undeb PCS? OAQ(4)0599(EST)

**10. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod contractau cadwyni cyflenwi yn dod i fusnesau yng Nghymru fel rhan o'r datblygiad morlyn llanw ym Mae Abertawe? OAQ(4)0587(EST)**W**

**11. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0588(EST)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gefnogaeth sy'n cael ei darparu i weithredwyr bysiau yng Nghymru i leihau eu hallyriadau carbon? OAQ(4)0584(EST)

**13. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa effaith bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i ohirio gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd yn ei chael ar gynlluniau rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0594(EST)**W**

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfraniad arwyddion brown i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)0585(EST)

**15. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun taleb gwibgyswllt? OAQ(4)0590(EST)**W**